

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan				Rhif yr Ymgeisydd			
					0			



TGAU

**MATHEMATEG
UNED 2: LLE CANIATEIR CYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL**

2^{il} BAPUR ENGHREIFFTIOL HAF 2017

1 AWR 30 MUNUD

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer y papur hwn.
Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Cymerwch π fel $3 \cdot 14$ neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn ichi gyfrifo.

I'r Arholwr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	4	
2.	3	
3.	2	
4.	3	
5.	8	
6.	2	
7.	2	
8.	4	
9.	4	
10.	6	
11.	3	
12.	2	
13.	4	
14.	5	
15.	6	
16.	3	
17.	4	
CYFANSWM	65	


Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd ansawdd eich trefnu a chyfathrebu ieithyddol a mathemategol yn cael ei ystyried wrth asesu yng nghwestiwn **5(c)**.

Bydd cywirdeb wrth ysgrifennu (ieithyddol a mathemategol) yn cael ei ystyried wrth asesu yng nghwestiwn **14**.

Rhestr fformiwlâu

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a+b)h$



1. Trefnodd Aneurin a Branwen barti ar ôl ennill eu digwyddiad yn yr Urdd. Cwblhewch y pedwar cofnod yn y tabl canlynol i ddangos rhan o'u bil am y bwyd gwnaethon nhw ei brynu.

Swm	Eitem	Cost
4 bag	Cnau am £1.35 y bag	£5.40
7	Pitsa am £1.75 y pitsa
3	Cacen siocled am £ y gacen	£7.47
..... carton	Sudd oren am 99c y carton	£8.91
Cyfanswm	


[4]

.....

.....

.....

2. Defnyddiwch bren mesur a chwmpas i wneud lluniad cywir o'r triongl hwn.




[3]

Mae llinell *AB* wedi ei lluniadu ar eich cyfer.

A _____ B

3.



Amcangyfrifwch arwynebedd y siâp sydd wedi ei luniadu uchod ar grid sgwâr os yw arwynebedd pob sgwâr yn 1 cm^2 .

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Arwynebedd y siâp = cm^2

4. (a) Rhowch gylch o amgylch y gair cywir i ddisgrifio'r siawns y bydd pob un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd.

(i) Mae blwch gan Mai sy'n cynnwys 100 o gardiau gwahanol.
Mae un rhif wedi ei ysgrifennu ar bob cerdyn, o 1 i 100.
Mae Mai yn dewis cerdyn ar hap o'r blwch.
Y siawns bod y rhif ar y cerdyn sydd wedi ei ddewis yn rhif 2-ddigid yw

[1]

amhosibl annhebygol siawns gyfartal tebygol sicr

(ii) Mae Dafydd yn dewis cerdyn ar hap o flwch sy'n cynnwys 50 cerdyn.
Mae 16 o gardiau lliw melyn yn y blwch.
Y siawns bod y cerdyn sydd wedi ei ddewis yn lliw melyn yw

[1]

amhosibl annhebygol siawns gyfartal tebygol sicr

(b) Ysgrifennwch fodd y rhifau hyn.

4 5 4 7 8 4 5 9 3


[1]

.....

5. (a) Mae Glyn wedi gwneud tŵr o frics fel mae'r llun isod yn ei ddangos.
 Mae rhif ar bob bric.
 Ar gyfer pob pâr o frics sydd nesaf at ei gilydd yn yr un rhes, y rhif ar y bric uwch eu pen yw cyfanswm y rhifau ar y ddwy fricsen.

Mae Glyn wedi dangos rhai o'r rhifau yn barod.
 Llenwch bob rhif arall ar y brics.

[3]



.....

.....

.....

.....

.....

- (b) Gwnaeth Hari ddal y bws i'r dref.
 Pris ei docyn bws oedd £2.85.
 Dim ond darnau £1 oedd ganddo.
 Mae rheolau'r cwmni bysiau yn dweud nad yw'n bosibl rhoi unrhyw newid.

Roedd Hari eisiau talu'r union bris gan ddefnyddio cyn lleied o ddarnau arian â phosibl.
 Gwnewch restr glir o'r darnau arian ychwanegol mae Hari eu hangen. [1]

.....

.....


.....

.....

7. Ar y diagram, nodwch y pwynt T gyda chroes fel bod

- $\hat{TAB} = 64^\circ$
- $AT = 7 \text{ cm}$.

[2]



8. (a) Rhowch gylch o amgylch CYWIR neu ANGHYWIR ar gyfer pob un o'r gosodiadau isod. [2]

GOSODIAD		
Mae gan giwboid 6 fertig.	CYWIR	ANGHYWIR
Mae tetrahedron yn byramid sydd â 4 wyneb trionglog y unig.	CYWIR	ANGHYWIR
Mae gan giwb 12 ymyl cyfartal.	CYWIR	ANGHYWIR
Mae gan brism trionglog 3 wyneb petryal.	CYWIR	ANGHYWIR

(b) Yn y lle gwag isod, lluniadwch **un** siâp sydd â

- chymesuredd cylchdro o drefn 3, a
- 3 llinell o gymesuredd.

Rhaid ichi luniadu'r llinellau cymesuredd.

[2]

9. Dyma ddau ddilyniant o rifau.
Mae rhai o'r rhifau wedi eu hepgor o'r ddau ddilyniant.
Llenwch y rhifau sy'n gwneud y dilyniant yn gywir.
Ar ôl pob dilyniant, ysgrifennwch y rheol i'w defnyddio i ganfod y term nesaf yn eich dilyniant.

(a) 5,,, 14, [2]

.....
.....
.....

Rheol

.....

(b) 40,,, 5, [2]

.....
.....
.....

Rheol

.....

10. (a) Symleiddiwch y mynegiad $9g - 5f - 2g + 3f$.

[2]

.....
.....

(b) Canfyddwch werth $3x + 4y$ pan fo $x = -2$ ac $y = 4$.

[2]

.....
.....

(c) Ysgrifennwch y ddau rhif nesaf yn y dilyniant canlynol.

20 14 9 5 2

[2]

.....
.....

11. (a) Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir ar gyfer pob un o'r gosodiadau canlynol.

(i) Mae Helen wedi prynu un o'r wyth deg o docynnau gafodd eu gwerthu mewn raffl. Y tebygolrwydd y bydd Helen yn ennill y brif wobwr yn y raffl yw

$\frac{1}{79}$ 1% 1:80 $\frac{1}{80}$ 80%
[1]

(i) Mae un bêl yn cael ei dewis ar hap o flwch sy'n cynnwys 5 pêl lliw glas, 4 pêl lliw coch ac 1 bêl lliw melyn. Tebygolrwydd dewis pêl lliw glas yw

$\frac{5}{5}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{5}{41}$ $\frac{10}{5}$ 5%
[1]

(b) Mae bag yn cynnwys rhai gleiniau lliw coch, lliw gwyrdd a lliw du. Mae un glain yn cael ei ddewis ar hap o'r bag.

Tebygolrwydd dewis glain lliw gwyrdd o'r bag yw $\frac{1}{3}$.

Pa un o'r setiau canlynol o leiniau allai fod wedi bod yn y bag? Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

2 coch	3 coch	3 coch	7 coch	5 coch
1 gwyrdd	6 gwyrdd	3 gwyrdd	4 gwyrdd	3 gwyrdd
1 du	3 du	4 du	1 du	4 du


[1]

12. Cyfrifwch 38% o 15.6.

[2]

.....
.....
.....

13. Mae'r ddau betryal sydd wedi eu tywyllu isod am gael eu lluniadu ar gerdyn gwyn, sgwâr, sydd ag ochrau o 9 cm. Ni ddylai'r ddau betryal orgyffwrdd.



Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa

Disgrifiwch yn glir sut gallai hyn gael ei wneud, a chyfrifwch arwynebedd y cerdyn sgwâr fydd heb ei dywyllu.

[4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

15. Mae'r diagram yn dangos 2 baralelogram unfath a chyfesurynnau pedwar fertig. Canfyddwch gyfesurynnau'r fertigau sydd wedi eu nodi yn A , B ac C .

[6]



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

.....

.....

.....

.....

A (..... ,) B (..... ,) C (..... ,)

16. Cyfrifwch fuanedd cyfartalog car wnaeth deithio 80 milltir mewn 2 awr a 30 munud.

[3]

.....

.....

.....


.....

.....

.....


17. (a) Cylchdrowch y triongl 90° yn wrthglocwedd o amgylch y tarddbwynt.

[2]



(b) Helaethwch betryal A gan ddefnyddio canolbwynt C a ffactor graddfa 2.

[2]



DIWEDD Y PAPUR